# IEUAN BRECHFA (bu farw tua 1500?), bardd ac achyddwr

**Enw:** Ieuan Brechfa
**Dyddiad marw:** tua 1500?
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd ac achyddwr
**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant; Barddoniaeth
**Awdur:** Ray Looker

brodor o Brechfa yn Sir Gaerfyrddin. Ni wyddys unrhyw fanylion am ei fywyd, ond cadwyd peth o'i farddoniaeth mewn llawysgrifau. Yn ôl pob tebyg y mae rhan o Pen. MS. 131 (199-308), llawysgrif achau, yn llaw'r bardd. Ceir cyfeiriadau mewn gwahanol lawysgrifau eraill hefyd at ei lyfr achau, sef yn Pen. MSS. 128, 132, 133, 139, 140, 176 (gweler *R.W.M.*). Ceir brut a briodolir iddo yn y *The Myvyrian Archaiology of Wales*. Canodd Iorwerth Fynglwyd osteg o englynion yn haeru i'r 'chwal' lyncu Ieuan pan oedd ym mhriodas merch Syr Rhys ap Tomas.

## Awdur

**Ray Looker**

## Ffynonellau


Jones a Lewis, *Mynegai i Farddoniaeth y Llawysgrifau* (1928)

Archifau LlGC: Llanstephan MS 7: The poetrical works of Lewis Glyn Cothi, Ieuan Brechfa and others (1, 4, 7, 11, 15, 18, 22, 25, 29, 35, 38, 103, 161, 257, 351, 352)

*NLW MSS* 728 (5); 13064 (5)

*Reports on Manuscripts in the Welsh Language* (Historical Manuscripts Commission 1898–1910), 1, ii, 786, 802, 803, 812, 826, 831-2, 880, 893, 978

*The Myvyrian archaiology of Wales* (Denbigh 1870), 716

*Cymru yn hanesyddol, parthedegol, a bywgraphyddol* (1875)

J. Davies, *Antiquæ linguæ Britannicæ et linguæ Latinæ, dictionarium duplex* (1632)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733268


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu